side

# Canllawiau Cydnabyddiaethau S4C

Mai 2026

S4C

Mynegai


1 Cyflwyniad

2 Rhaglenni neu ffilmiau wedi eu comisiynu a'u hariannu'n llwyr neu'n bennaf gan S4C

Cydnabyddiaethau i gloi
Cydnabyddiaethau cynhyrchu a hawlfraint Cydnabyddiaethau agoriadol
Nodiadau a chanllawiau pellach

3 Rhaglenni neu ffilmiau wedi eu hariannu neu eu cynhyrchu ar y cyd

4 Rhaglenni wedi eu prynu

5 Clipiau rhaglen o fewn rhaglenni eraill ar gyfer S4C

6 Deunydd gwerthiant o raglenni S4C

○ Nawdd
Noddi rhaglenni i'w darlledu ar S4C
Digwyddiadau'n cael eu noddi
Arddangos cynnyrch/bargeinion cyferbyniol

1. **Cyflwyniad**

1.1 Mae S4C yn cydnabod ei bod yn deg a phriodol cydnabod, drwy gyfrwng cydnabyddiaethau addas, y prif gyfraniadau creadigol a wneir gan unigolion i raglenni sy'n cael eu darlledu ar S4C. Yn ogystal, mae gan rai cyfranwyr, fel awduron a chyfarwyddwyr, hawl i gydnabyddiaeth felly yn ôl y gyfraith. Bwriedir cydnabyddiaethau, fodd bynnag, er budd a gwybodaeth i'r gwylwyr. Mae gwaith ymchwil yn awgrymu bod gwylwyr yn diflasu neu'n ymwrthod â chyfresi o gydnabyddiaethau hir iawn. O ganlyniad, gall S4C golli gwylwyr i ddarlledwyr eraill neu i fathau eraill o adloniant. Hefyd, mae cydnabyddiaethau hir yn defnyddio amser darlledu gwerthfawr y gellid ei ddefnyddio'n fwy buddiol i hyrwyddo rhaglenni neu wasanaethau eraill S4C, neu i ennill incwm hysbysebu i S4C y gellir ei ddefnyddio yn ei dro i ariannu rhaglenni pellach.

1.2 Felly mae'n ofynnol gan S4C y dylai cydnabyddiaethau gael eu rhoi'n unig pan ellir eu cyfiawnhau'n llawn, ac y dylai cyfanswm y dilyniannau cydnabyddiaethau fod yn fyr. Yn gyffredinol, mater i'r unigol yw penderfynu pa gyfranwyr ddylai gael cydnabyddiaeth, a maint, ffurf a chyflwyniad cydnabyddiaethau o'r fath cyn belled, wrth gwrs, â bod yr egwyddorion cyffredinol yn y Canllawiau hyn yn cael eu parchu. Yn y cyswllt hwn, dylid nodi nad yw'r Canllawiau hyn wedi eu bwriadu i fod yn gynhwysfawr, ac mewn unrhyw achos o amheuaeth neu ansicrwydd, rhaid i gyflenwr ymgynghori â'r Comisiynydd perthnasol.

1.3 O fewn y diwydiant adnabyddir cydnabyddiaethau cast a chriw ar ddiwedd rhaglen gan fwy nag un enw - Cydnabyddiaethau cloi, Cydnabyddiaethau i gloi, Cydnabyddiaethau Cynhyrchu, Credydau diwedd rhaglen, Credydau cloi. Y term a ddefnyddir yn y ddogfen hon yw cydnabyddiaethau i gloi.

2. **Rhaglenni neu ffilmiau wedi eu comisiynu a'u hariannu'n llwyr neu'n bennaf gan S4C Cydnabyddiaethau i gloi**

2.1 Rhaid i bob rhaglen, ac eithrio rhaglenni a gomisiynwyd i’w darlledu yn ystod slot plant Cyw a Stwnsh, neu cynnwys ffurf fer digidol llai na 10m gynnwys cydnabyddiaethau i gloi. Rhaid i unrhyw amrywiad o'r canllawiau gael ei gymeradwyo gan y Prif Swyddog Cynnwys.

2.2 Rhaid i'r holl gydnabyddiaethau i gloi rhedeg ar y sgrin ar gyflymdra priodol; bydd amseriad y cydnabyddiaethau'n rhedeg o'r eiliad y bydd y gydnabyddiaeth gyntaf perthnasol yn ymddangos ar y sgrin.

2.3 Oni chytunir yn wahanol gan y **Prif Swyddog Cynnwys -** 15” fydd y lleiafswm a ganiateir ar gyfer cydnabyddiaethau i gloi ar gyfer pob categori o raglen (ar wahân i'r rheiny y cyfeirir atynt yn benodol ym mharagraff 2.4 isod), Mae’r tabl ‘Union Hyd Rhaglenni’ ar wefan cynhyrchu S4C yn dangos y cyfnod hiraf mewn cyfanswm a ganiateir ar gyfer cydnabyddiaethau i gloi (oni ddarperir yn wahanol yn y cytundeb comisiynu) Gall rhaglenni a gomisiynwyd i’w darlledu yn ystod slot wedi ei frandio ar gyfer yr arlwy i blant ddewis peidio â chynnig cydnabyddiaethau llawn ar gyfer y rhaglenni ond yn hytrach arddangos cydnabyddiaeth y cynhyrchiad a’r rhybudd hawlfraint yn unig.

2.4 Mae’r canlynol yn eithriadau i’r uchafsymiau a nodir uchod:

| **Categori** | **Hyd Slot** | **Uchafswm Hyd Cydnabyddiaeth** |
|---|---|---|
| Drama | 1 awr | 60 eiliad |
| Drama | 1 awr | 60 eiliad |
| Operâu | 30 munud | 30 eiliad |
| Ffilmiau | Yn unol â’r cytundeb | 90 eiliad |

2.5 Oni nodir yn wahanol yn y Canllawiau hyn, neu oni fydd S4C yn darparu'n wahanol yn y cytundeb comisiynu gyda chyflenwr y rhaglen, cyfrifoldeb y cynhyrchydd fydd penderfynu pwy sy'n cael cydnabyddiaeth o fewn y cyfnod hiraf a ganiateir ar gyfer y cydnabyddiaethau i gloi, sicrhau bod y cydnabyddiaethau yn addas, a bod yr holl gydnabyddiaethau yn gyson â gofynion y Canllawiau hyn.

2.6 Rydym yn annog cyfyngu'r cydnabyddiaethau i gloi i lai na'r amser hiraf a ganiateir pryd bynnag y bydd hynny'n rhesymol bosibl.

2.7 Pan fydd S4C wedi comisiynu ffilm gyda'r bwriad neu'r posibilrwydd o sicrhau dosbarthiad theatrig, DAD neu ddefnydd arall i'r ffilm honno (yn ogystal â'i darlledu ar wasanaeth teledu S4C), a lle bydd yn rhaid i'r cydnabyddiaethau i gloi ar gyfer ffilm felly fod yn hirach ar gyfer defnydd theatrig, DAD neu ddefnydd arall heblaw teledu, gall S4C fynnu cael fersiwn deledu o'r ffilm gyda chydnabyddiaethau sy'n cydymffurfio â'r Canllawiau hyn, a heb fod cyfanswm y cydnabyddiaethau i gloi yn hwy na 90 eiliad.

2.8 Ni chaiff cydnabyddiaethau i gloi eu hymgorffori ar ddiwedd y rhaglen na rhedeg dros y cynnwys oni fydd (ac i'r graddau y bydd) y Prif swyddog Cynnwys wedi cymeradwyo hynny'n benodol.

2.9 Ar ôl y cydnabyddiaethau i gloi ym mhob rhaglen fe ddylid cynnwys Cydnabyddiaeth Cynhyrchu a Hawlfraint sy’n cydymffurfio â gofynion y Canllawiau canlynol: https://media.cms.v1.s4c.cymru/media/media_assets/S4C_-_Canllawiau_Credydau_Cloi_-_2025.pdf

2.10 Ni chaiff cydnabyddiaeth, boed yn un llonydd neu wedi ei animeiddio neu ar ryw ffurf arall a gymeradwywyd yn benodol gan y Comisiynydd, barhau ar y sgrin am fwy na 10% o hyd cyfanswm y cydnabyddiaethau i gloi.

**Cydnabyddiaethau Agoriadol**

2.11 Caniateir cydnabyddiaethau agoriadol mewn achosion penodol yn unig fel a ganlyn:-

| **Math o raglen** | **Cydnabyddiaethau Agoriadol a Ganiateir** |
|---|---|
| Rhaglenni Ffeithiol a | Teitl y rhaglen (neu'r gyfres, a theitl y bennod) yn unig; |
| Rhaglenni Adloniant | Teitl y rhaglen (neu'r gyfres a theitl y bennod), a'r awdur, ac unrhyw aelodau o'r cast a gytunir gan |
| Rhaglenni Drama a Ffilmiau S4C | Teitl y rhaglen/ffilm (neu'r gyfres a theitl y bennod) a'r awdur, unrhyw aelodau o'r cast a gytunir gan S4C, a'r cynhyrchydd a'r cyfarwyddwr |

2.12 Mae S4C yn cadw'r hawl i symud cydnabyddiaethau i agor neu i gloi rhaglen, neu i gynhyrchu ei gydnabyddiaeth ei hun, os caiff y Canllawiau hyn eu torri neu os bydd angen gwneud hynny am resymau gweithredol.

2.13 Ni chaniateir cydnabyddiaethau agoriadol oni chymeradwyir hynny'n benodol gan y Comisiynydd.

2.14 Dylai ffilmiau sy'n cael eu comisiynu gan S4C fel yr unig ariannwr bob amser ddangos cydnabyddiaeth cyflwyno agoriadol, fel y gydnabyddiaeth gyntaf ar y sgrin ac ar gerdyn sengl nad yw'n cynnwys unrhyw gydnabyddiaethau nac enwau eraill, yn y ffurf 'Mae S4C yn cyflwyno'. Bydd ffurf, cyflwyniad, maint ac amlygrwydd cydnabyddiaethau megis 'Cyflwyniad' ac 'Mewn cydweithrediad â' ar ffurf a gytunir gan S4C yn y cytundeb comisiynu.

2.15 Mae S4C yn cadw'r hawl i ymgorffori cydnabyddiaeth cyflwyno a/neu logo S4C ddechrau pob rhaglen/ffilm.

**Nodiadau a chanllawiau pellach**

2.16 Caiff y Canllawiau Cydnabyddiaethau hyn (gan gynnwys heb gyfyngiad y cyfnodau cydnabyddiaethau hiraf a ganiateir ar gyfer cydnabyddiaeth i gloi ym mhob categori o raglen neu ffilm) eu hymgorffori drwy gyfeiriad ym mhob cytundeb comisiynu ar gyfer rhaglenni neu ffilmiau sy'n cael eu hariannu'n llwyr neu'n bennaf gan S4C. Bydd y cytundeb comisiynu yn ei gwneud yn ofynnol i'r gydymffurfio â darpariaethau'r Canllawiau Cydnabyddiaethau hyn, ac eithrio i'r graddau bod y cytundeb comisiynu yn darparu yn wahanol neu'n caniatáu amrywiadau iddynt.

2.17 Gall methu cydymffurfio â darpariaethau'r Canllawiau hyn a/neu ddarpariaethau'r cytundeb comisiynu achosi oedi cyn derbyn y rhaglenni dan sylw gan beri cost i'r cynhyrchydd, fydd yn gorfod talu neu ad-dalu'r gost o ail-wneud neu olygu unrhyw gyfres gydnabyddiaethau annerbyniol. Bydd S4C ei hun yn hepgor a/neu newid cydnabyddiaethau o'r fath os bydd y dyddiad darlledu'n agos.

2.18 Ni fydd S4C yn gyfrifol i'w gyflenwyr rhaglenni (nac i drydydd parti y mae cynhyrchydd wedi ymrwymo'n gytundebol i roi cydnabyddiaeth iddo) os caiff cydnabyddiaeth ei hepgor o'r rhaglen

fel y caiff ei ddarlledu gan S4C oherwydd methiant i gydymffurfio â darpariaethau'r Canllawiau hyn (neu'r cytundeb comisiynu os yw'n wahanol).

2.19 Bydd S4C yn ceisio darlledu pob cydnabyddiaeth sy'n cydymffurfio â darpariaethau'r Canllawiau hyn ac â darpariaethau'r cytundeb comisiynu, ond mae'n cadw'r hawl i dorri neu newid cydnabyddiaethau os torrir y Canllawiau, neu oherwydd anghenion gweithredol y gwasanaeth darlledu.

2.20 Gall S4C yn ôl ei hewyllys olygu neu addasu rhaglenni (a'r cydnabyddiaethau) er mwyn:

(i) caniatáu cynnwys hysbysebion, cyhoeddiadau gwasanaethau cyhoeddus, deunydd hyrwyddo rhaglenni, a deunydd tebyg arall yn gysylltiedig â'r rhaglenni;
(ii) hwyluso gofynion amserlen gwasanaeth S4C;
(iii) bodloni gofynion rhesymol polisïau a safonau rhaglenni S4C;
(iv) cydymffurfio â'r darpariaethau rheoleiddio a/neu statudol perthnasol sydd mewn grym o bryd i'w gilydd.

2.21 Ni chaiff neb fwy nag un gydnabyddiaeth ar y sgrin, a dylai cynhyrchwyr rhaglenni ddefnyddio cydnabyddiaeth gyfunol ('ysgrifennwyd a chyfarwyddwyd gan ...') pan fydd gan unigolyn fwy nag un swyddogaeth neu gyfraniad. Os digwydd bod cydnabyddiaeth gyfunol felly'n anodd ei wneud, (er enghraifft, am fod parti arall yn rhannu un o'r swyddogaethau yn y gydnabyddiaeth), yna caiff y mater ei gyfeirio at y Comisiynydd.

2.22 Yn gyffredinol (ac oni ofynnir yn wahanol gan y Comisiynydd), rhaid peidio â chydnabod staff comisiynu S4C mewn rhaglenni, ac ni ellir 'diolch' i unrhyw staff eraill ar y sgrin.

2.23 Cyn cytuno i roi cydnabyddiaethau 'diolch' neu drefnu eu paratoi yn lle taliad priodol am wasanaeth (megis i gwmnïau hurio ceir, perchnogion cartrefi bonedd neu leoliadau eraill), dylai cynhyrchydd y rhaglen gysylltu â Comisiynydd a tîm cyfreithiol S4C i gael arweiniad a chymeradwyaeth.

2.24 Ni ddylid rhoi cydnabyddiaeth i Uned Ddarlledu Allanol, stiwdio na chyfleusterau ôl-gynhyrchu, cynhyrchwyr uned camera sengl, na VTR oni chytunir fel arall gan y Comisiynydd.

**3. Rhaglenni neu Ffilmiau wedi eu Hariannu neu eu Cynhyrchu ar y Cyd** (gan gynnwys rhaglenni neu ffilmiau wedi eu prynu ymlaen llaw lle nad S4C yw'r unig neu'r prif ariannwr)

3.1 Mater i'w drafod a'i gytuno rhwng y cyd-gynhyrchwyr neu'r cyd-arianwyr ym mhob achos unigol fydd y cydnabyddiaethau i'w hymgorffori mewn unrhyw raglen neu ffilm sy'n cael eu cydgynhyrchu neu ei chyd- ariannu gan S4C, a dylid eu nodi'n fanwl yn y cytundeb cydgynhyrchu perthnasol.

3.2 Os na all S4C a'r cyd-arianwyr neu'r cyd-gynhyrchwyr eraill gytuno ar restr safonol o gydnabyddiaethau (gan gynnwys nifer, hyd, maint ac amlygrwydd y fath gydnabyddiaethau) i'w hymgorffori ym mhob fersiwn o'r rhaglen neu ffilm, gall S4C fynnu bod y Cynhyrchydd yn creu fersiwn wahanol ar gyfer S4C. Rhaid i'r Cynhyrchydd ragweld materion felly wrth drefnu ei gyllideb.

## 4. Rhaglenni wedi eu prynu

4.1 Mater i'w drafod yn unigol rhwng S4C a gwerthwr y rhaglen fydd y cydnabyddiaethau sydd i'w darlledu ar S4C mewn perthynas ag unrhyw raglen sydd wedi ei phrynu.

4.2 Bydd manylion penodol yn cael ei nodi yn y briff, ond yn gyffredinol:

Ni chaniateir unrhyw gydnabyddiaeth agoriadol i'r fersiwn Gymraeg ac eithrio teitl y rhaglen (neu'r gyfres, a theitl y bennod) yn unig.

Dylid nodi unrhyw gydnabyddiaeth cloi i'r fersiwn Gymraeg ar ôl cydnabyddiaeth y fersiwn wreiddiol

Dylid geiriau'r cydnabyddiaethau cynhyrchu a hawlfraint ddilyn yr hyn sydd wedi ei nodi yn y briff.

## 5. Clipiau rhaglen o fewn rhaglenni eraill ar gyfer S4C

5.1 Dylai'r cynhyrchydd nodi cydnabyddiaeth o unrhyw glipiau o raglen fydd yn ymddangos o fewn rhaglenni ar gyfer S4C.

## 6. Deunydd gwerthiant o raglenni S4C

6.1 Bydd hawl gan S4C i gael eu cydnabod mewn unrhyw ddeunydd gwerthiant o raglenni S4C.

6.2 Bydd gan S4C yr hawl i gymeradwyo unrhyw ddeunydd gwerthiant megis clawr DAD, logo a.y.y.b. ac mewn amser digonol.

6.3 Dylid cysylltu gyda S4C er mwyn arwyddo trwydded os ydych chi'n dewis defnyddio logo S4C.

## 7. Nawdd

### Noddi rhaglenni i'w darlledu ar S4C

7.1 Rhaid i gynigion i noddi rhaglenni sydd i'w darlledu ar S4C gael eu cymeradwyo gan S4C fesul achos unigol. Rhaid i unrhyw drefniadau a fwriedir i noddi rhaglen neu ffilm, ac unrhyw gynigion ar gyfer cydnabyddiaethau neu enwau ar sgrin neu unrhyw fuddiannau eraill o blaid noddwyr rhaglenni gael eu cyfeirio ymlaen at S4C i gael arweiniad ac i sicrhau cymeradwyaeth.

### Digwyddiadau'n cael eu noddi

7.2 Mae darllediad teledu o ddigwyddiad sy'n cael eu noddi yn dod o dan ofynion Cod darlledu Ofcom a Chod Rhaglenni S4C sydd mewn grym o bryd i'w gilydd. Bydd S4C yn rhoi cyngor mewn perthynas â theitlau sgrin, baneri a dulliau tebyg o roi amlygrwydd ar y sgrin i noddwr digwyddiad, ac mewn perthynas â sylw lleisiol a dyfeisiadau eraill ar gyfer marchnata a marsiandïo a all fod o fantais i noddwr digwyddiad cyn belled ag y gellir eu cynnwys yn y rhaglen. Mae S4C yn mynnu bod cynhyrchwyr yn cydymffurfio â'i holl ofynion ar gyfer cydnabyddiaethau

a gofynion eraill yn y cyswllt hwn. Yn ogystal, mae'n ofynnol i gyflenwyr gysylltu â Comisiynydd S4C yn gynnar cyn dechrau cynhyrchu.

**Gosod cynnyrch/Gosod Propiau**

**8.** Ni chaniateir i raglenni ar yr iPlayer gynnwys gosod cynnyrch. Yn sgil hyn, gofynnir i gynhyrchwyr beidio â chynnwys gosod cynnyrch mewn rhaglenni heb ganiatâd penodol gan S4C. Ni fydd hyn yn rhwystro cynhyrchwyr rhag gosod propiau mewn rhaglenni (cyn belled na roir amlygrwydd gormodol i'r fath brop) ond atgoffir cynhyrchwyr o'r diffiniad o osod cynnyrch yn Adran 9 o God Ofcom, sy'n cwmpasu gosod propiau sy'n cael eu cadw gan gynhyrchwyr ar ddiwedd rhaglen ble bo'r gwerth gweddilliol yn fwy na dibwys. Os oes dymuniad i gadw propiau ar y sail yma, bydd angen cysylltu ag S4C yn syth er mwyn trafod a fydd modd caniatau hyn.

**Am fwy o fanylion, cysylltwch â:**

**Cyfarwyddiaeth Darlledu a Dosbarthu**
Anwen Thomas – anwen.thomas@s4c.cymru
03305 880496

Aimee Richardson – aimee.richardson
03305 880481

**Cyfarwyddiaeth Materion Busnes**
Uwch Swyddog Materion Busnes:
Angharad Thomas angharad.thomas@S4C.cymru
03305 880412